**Gaeaf 2023**

# Cyfarchion y Tymor!

Mae 2023 wedi bod yn flwyddyn llawn digwyddiadau, gyda'r Band Ieuenctid a'r Band Hŷn yn rhagori yng nghystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol a Bandiau Pres Cenedlaethol. Bu'r dref hefyd yn mwynhau gweld Seindorf Biwmares Band yn ôl yng Ngwŷl Biwmares gyda rhaglen ddifyr yn llawn adloniant, a chroesawyd ymwelydd arbennig o Norwy.

Yn ogystal â chreu cerddoriaeth, mae'r holl fandiau wedi chwarae eu rhan mewn sawl gweithgaredd codi arian: Caws a Gwin, Cawl a Chân, Bingo, Ffeiriau Crefftau. Mawr ddiolch i bawb a fynychodd unrhyw un ohonynt. Un o'n blaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn Newydd yw codi digon o arian i anfon y Band Ieuenctid i Palanga, Lithuania yn y gwanwyn flwyddyn nesaf. Fel Pencampwyr Cenedlaethol byddant yn cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Bandiau Pres Ieuenctid Ewrop. Camp wych a haeddiannol, wedi'i alluogi gan bawb sy'n cefnogi teulu Band Biwmares.

Mae'r 'Cyfeillion' yn rhan bwysig o'r cymorth hwnnw, ac eleni rydym wedi talu costau atgyweirio offerynnau gan gynnwys 2 Bb Bas (swm pedwar ffigwr na allai'r band fod wedi'i fforddio fel arall).

Ym mis Mehefin, braf oedd croesawu ffrindiau o Norwy wrth i'r cyn Gyfarwyddwr Cerdd Gwyn Evans ddychwelyd i'r dref gyda'r *Tanager-Haland & Dysjaland Skolerkorps*. Chwaraeodd y band yn y castell cyn ymuno â Band Ieuenctid Biwmares ar Sgwâr y Castell. Daeth y diwrnod i ben gyda rhai gemau ar y Green a barbeciw yn ystafell y band… ac am unwaith, cadwodd y glaw i ffwrdd!



**Digwyddiadau i ddod ym mis Rhagfyr:**

Gwe 8fed & Sat 9fed - 7.00pm – Canolfan Biwmares
Cyngerdd Nadolig

Llun 11eg – 7.30pm – Cadeirlan Bangor
Gwasanaeth Carolau, Gwasanaethau Bry Gyfun - *Hŷn*

Iau 14eg – *Amser TBC* - Llanfairpwll
Gwasanaeth Carolau - *Hŷn*

15eg – 11-1pm tua. – O gwmpas Biwmares
Carolau – *LSW-plws*

16eg 6pm – Clwb Hwylio, Biwmares
Carolau - *Hŷn & Ieuenctid*

Sul 17eg – 4.15pm –Eglwys Llandegfan
Gwasanaeth Carolau - *LSW-plws*

Gwe 22ain – *Amser TBC* – Porth Amlwch
Carolau - *Hŷn, Ieuenctid & LSW*

**Bydd bandiau hefyd yn chwarae carolau yng Nghartref Gofal Henllys a lleoliadau siopa amrywiol yn y cyfnod cyn y Nadolig.**

## Newyddion Seindorf

### **Seindorf Hŷn –** *gan y Cyfarwyddwr Cerdd Bari Gwiliam*

Mae'r band wedi cael taith ryfeddol ers mis Ebrill. O lwyddiannau nodedig cystadlu i gyngherddau cyfareddol, mae ein cerddorion wedi arddangos eu doniau gydag angerdd ac ymroddiad.

Canlyniadau'r gystadleuaeth:

**Eisteddfod - Dosbarth Agored:** Gyda balchder y cyhoeddwn ein llwyddiant yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd gan sicrhau 3ydd safle trawiadol yn y bencampwriaeth a hefyd yr adran 1af.

**Rowndiau Terfynol Cenedlaethol Prydain Fawr:** Parhaodd y daith yn y Rowndiau Terfynol Cenedlaethol, lle disgleiriodd ein band yn yr Adran 1af gan sicrhau 3ydd safle arall. Llongyfarchiadau i'n holl gerddorion dawnus am eu gwaith caled a'u hymroddiad.

Estynnodd ein taith gerddorol y tu hwnt i gystadlaethau, gyda chyfres o gyngherddau hudolus a adawodd ein cynulleidfaoedd dan gyfaredd.




Roeddem yn falch iawn o gael ein gwahodd i gymryd rhan yng Ngŵyl Biwmares ym mis Mai. Dilynwyd y cyngerdd hwnnw gan ein Cyngerdd Haf ni ym mis Gorffennaf ac ym mis Hydref bu'r Band Hŷn yn perfformio yng Ngwobrau Chwaraeon Ynys Môn. Rydym yn falch o fod yn darparu cerddoriaeth ar gyfer Gwasanaeth Carolau'r Gwasanaethau Brys ar Ragfyr 11eg yng Nghadeirlan Bangor. *(gweler Digwyddiadau i ddod)*




Mae cynlluniau cyffrous eisoes ar waith ar gyfer 2024: Ym mis Ionawr byddwn yn gweithio gyda Chwaraewyr y Castell ar gyfer eu Perfformiad Pantomeim. Ym mis Mawrth bydd cyngerdd codi arian er budd cystadleuaeth ryngwladol y Band Ieuenctid yn Palanga, Lithuania. Byddwn eto yn perfformio yng Ngŵyl Biwmares ym mis Mai.

Clodforwn rai o'n cerddorion arbennig:

- Andy (BBb Bâs) ac Enfys (Trombôn Bâs): Mae eich hyblygrwydd a'ch ymroddiad wrth symud offerynnau ar gyfer cystadleuaeth ddiweddar wir yn eich gwneud chi'n Fandwyr go iawn!
- Iestyn (Ewffoniwm): Camu i'r her o symud o'r band ieuenctid i'r band hŷn ychydig cyn y rownd derfynol, a chyflwyno deuawd go arbennig yn y darn prawf—da iawn!

## **Seindorf Ieuenctid** - gan Arweinydd Peter Cowlishaw

Gyda balchder y cyhoeddwn i ni ennill Pencampwriaethau Cenedlaethol yn Stockport ym mis Mai, lle hefyd yr enillodd Osian Maloney 'Gwobr yr Unawdydd.' Llongyfarchiadau enfawr ar ei gamp arbennig ac i'n holl gerddorion ifanc.



Ailadroddodd y band eu llwyddiant ym mis Awst, gan ennill Cystadleuaeth Bandiau Ieuenctid yr Eisteddfod Genedlaethol. Fel Pencampwyr Cymru bydd y band rwan yn cynrychioli Cymru y gwanwyn nesaf ym Mhencampwriaethau Ewrob yn Palanga yn Lithuania.



Rhagorodd Osian Maloney hefyd yn Eisteddfod yr Urdd gan ennill cystadleuaeth Unawd Pres Bl 10 a dan 19oed gyda'i berfformiad eithriadol o 'Carnival of Venice'.

Yn Rali Gogledd Cymru ym mis Tachwedd yn ogystal ag ennill ein hadran enillodd ein chwaraewyr bedwar tlws arall: Unawdydd, Adran Offerynnau Taro, Chwaraewr ieuengaf a'r Emyn Gorau.

Cyflwynwyd Gwobrau Blynyddol y Bandiau yn y Cyngerdd Haf a llongyfarchwn ein chwaraewyr ifanc ar eu llwyddiant.

- Gwobr Ray Brimecombe (Bandsman y Flwyddyn) - **Olivia Parry**
- Gwobr Ruth Gwilliam (Chwaraewr wedi gwneud y cynnydd mwyaf) - **Sam Lindenbaum**
- Bwrsari Coffa Liz Howe - **Iestyn Seirio**




Edrychwn ymlaen at brysurdeb 2024 gyda llawer o waith codi arian i'n helpu i gyrraedd Lithuania. Hefyd bydd gweithdai penwythnos gyda mentoriaid proffesiynol - i'n helpu i gynrychioli Cymru y gorau y gallwn.

## **Seindorfau Iau a Canolradd** – gan Arweinydd Maggie Evans

Mae'r ddau fand wedi bod yn brysur bob mis, gydag egwyl ym mis Awst yn unig.

Ym mis Ebrill, cynhaliodd y Band Iau a'r Band Ieuenctid fore coffi yn Neuadd y Dref i godi arian ar gyfer y band. Roedd yn ddigwyddiad bendigedig a'r neuadd dan ei sang. Roedd pawb wrth eu bodd yn gwrando a'r ein plant ifanc yn chwarae a phawb wedi mwynhau.



Llongyfarchiadau mawr i Sam Lindenbaum ar ennill y wobr gyntaf ar yr unawd pres yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Llongyfarchiadau hefyd i Jemima Reeves ar gyrraedd y rownd cyn-derfynnol yn yr un gystadleuaeth. Mae'r band yn falch iawn ohonoch eich dau.




Ym mis Mehefin bu'r Band Canolradd **yn cystadlu am y tro cyntaf**, a hynny yng Nghystadleuaeth Emyn a Gorymdaith yn Y Drenewydd. Gyda dim ond 5 ymarfer cyn y gystadleuaeth llwyddodd y band i ennill y wobr gyntaf gan chwarae emyn a gorymdaith yn ogystal a 2 ddarn o Charlie and the Chocolate Factory, sef Oompa Loompa a Candy Man. Roedd y beirniad wedi ei blesio'n arw ac wedi nodi ei bod hi'n amlwg bod y band wedi mwynhau chwarae'r rhaglen.



Chwaraeodd y Band Iau a'r Band Canolradd yn y cyngerdd haf ym mis Gorffennaf. Gyda dim ond ychydig wythnosau o ymarfer yn dilyn y gystadleuaeth yn y Drenewydd, gweithiodd pawb yn ddiwyd i berfformio rhaglenni amrywiol llawn adloniant. Roedd y gynulleidfa wir wedi mwynhau gweld a chlywed y band Iau yn perfformio - nifer ohonynt o dan 8 oed. Maent yn glôd i'r band!

Roedd mwynhad mawr hefyd yn gwrando ar raglen y Band Canolradd gyda gwestai gwâdd yn ymddangos wrth chwarae Doctor Who. Daeth Dalek enfawr drwy'r gynulleidfa i ymosod ar bobl. Diolch byth - dim ond dŵr a gafodd ei chwistrellu!

I orffen tymor prysur cafwyd Barbeciw i aelodau'r Band Iau a'r Band Canolradd er mwyn diolch iddynt am eu gwaith caled!

Mis Medi - dechrau tymor newydd a recriwtiaid newydd. Mae'r mwyafrif o aelodau'r Band Iau wedi symud i'r Band Canolradd erbyn hyn, a rhai aelodau

o'r Band Canolradd wedi symud i'r Band Ieuenctid. Mae hi mor braf tystio'r datblygiad yma.

Erbyn hyn, mae **22 aelod newydd** wedi ymuno â'r Band Iau. Nid oedd yr un ohonynt wedi chwarae offeryn pres cyn ymuno, ond os dewch i'r cyngherddau Nadolig cewch eich synnu gyda'u datblygiad rhyfeddol.



Ym mis Tachwedd, roedd yn fraint gan y Band Canolradd gael ymuno â'r Band Hŷn i gymryd rhan yng ngorymdaith Sul y Cofio. Nid yw'n beth hawdd chwarae A gorymdeithio ar yr un amser. Felly gobeithio erbyn y flwyddyn nesaf bydd yr aelodau yn gallu chwarae A gorymdeithio ar yr un pryd!

Mae'r ddau fand rwan yn gweithio'n galed yn paratoi eu rhaglenni ar gyfer y Cyngherddau Nadolig. Edrychwn ymlaen at eich croesawu yno!



### **LSW –** Arweinydd Fred Evans MBE

Mae'r LSW hefyd wedi cael blwyddyn dda. Ynghyd â'r Band Canolradd, bu'r LSW yn cystadlu yn y gystadleuaeth 'Gorymdeithio ac Emyn' yn Y Drenewydd, gan ennill yn adran 'Band heb ei Gofrestru'. Ddechrau Tachwedd roeddent yn fuddugol yn Rali Gogledd Cymru yn Rhuthun. Rhaid cyfaddef mai nhw oedd yr unig fand yn eu hadran ond roedd yr Arweinydd Fred Evans wrth ei fodd gyda'u perfformiad! Daeth clod dwbl i'r teulu Maloney yn Rhuthun - Nia yn ennill y wobr 'Unawdydd Anghofrestredig', ac Osian y mab yn cipio'r wobr yn yr adran Ieuenctid.



Cefnogodd LSW y dref a'r Band trwy stiwardio'r traffig yn Parêd y Cofio a Parệd y Maer. Roedd aelodau eraill LSW (mwy bywiog!) yn gorymdeithio.

Chwarae er pleser yn bennaf y mae LSW,, ond maen nhw hefyd yn codi arian, cynnal nosweithiau bingo a helpu mewn digwyddiadau eraill y bandiau.

Yn ddiweddar mae LSW wedi cael gwahoddiad gan y BBC i berfformio rhai carolau yn fyw ar raglen 'Caryl' Radio Cymru! Cyflwynir y sioe gan y gantores, y gyfansoddwraig a'r ddarlledwraig adnabyddus , Caryl Parry Jones. Fe'i darlledir ar Rhagfyr 15 rhwng 9 yh -12.00 (hanner nos).

## Cyfeillion Gwefan

Peidiwch ag anghofio ymweld â gwefan Cyfeillion Seindorf Biwmares,

yno byddwch yn dod o hyd i'r newyddion diweddaraf a dyddiadau pwysig..

www.friendsofbeaumarisband.org.uk